Adroddiad corfforaethol

awdurdod safonau proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Cynllun Busnes

2026/27

2026/27

SG/2026/58

# Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Cynllun Busnes 2026/27

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

SG/2026/58

OGL

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2026

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i

nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael ar **www.professionalstandards.org.uk**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn **info@professionalstandards.org.uk**

ISBN 978-1-5286-6253-6

E03562288    03/26

Wedi'i argraffu ar bapur gyda chynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf 40%.

Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Swyddfa Lyfrfa Ei Mawrhydi.

# Beth rydym yn ei wneud

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) yw corff goruchwylio'r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Mae 10 sefydliad sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn ôl y gyfraith. Rydym yn archwilio eu perfformiad ac yn adolygu eu penderfyniadau ar addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Rydym hefyd yn achredu ac yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith.

Rydym yn cydweithio â'r holl sefydliadau hyn i wella safonau. Rydym yn rhannu arfer da, gwybodaeth a'n harbenigedd rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym hefyd yn cynnal ac yn hyrwyddo ymchwil ar reoleiddio. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan roi arweiniad i lywodraethau a rhanddeiliaid. Trwy ein hymgynghori yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, rydym yn rhannu ein harbenigedd ac yn ehangu ein mewnwelediadau rheoleiddiol.

Mae ein gwerthoedd craidd o gywirdeb, tryloywder, parch, tegwch, a gwaith tîm, yn arwain ein gwaith. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a dull o weithredu ar **www.professionalstandards.org.uk**.

# Crynodeb o Cynllun Strategol 2026-29 yr Awdurdod

### Gweledigaeth

Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

### Cenhadaeth

I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

## Nod strategol 1

**Diogelu’r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.**

Mae'r nod strategol hwn yn ymwneud â'n dyletswyddau statudol i adrodd ar berfformiad rheolyddion ac i achredu cofrestrau o grwpiau heb eu rheoleiddio.

- Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau lle mae'r risg fwyaf i'r cyhoedd yn unol â rheoleiddio cyffyrddiad cywir.
- Cefnogi safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol drwy ein hadolygiadau perfformiad, adolygiadau adran 29, rhaglen Cofrestrau Achrededig, polisi a swyddogaethau cyfathrebu.
- Ceisio mwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid i asesu perfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.
- Adolygu a gwella ein prosesau (gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol ble fo angen) i sicrhau eu bod yn parhau yn effeithiol ac yn effeithlon.

## Nod strategol 2

**I yrru gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r nod strategol hwn yn adeiladu ar ein dyletswyddau adrodd craidd i gwmpasu hwyluso, cynghori a gorfodi i hyrwyddo a chefnogi gwelliant parhaus yng ngwaith rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.

- Defnyddio cyngor, canllawiau ac ymyriadau wedi'u targedu ac amserol (megis monitro gwell, cyhoeddi argymhellion a mynnu cynlluniau gwella perfformiad) i gefnogi rheolyddion a Chofrestrau Achrededig i fodloni ein Safonau.

- I gefnogi gwelliant parhaus mewn rheolyddion a Chofrestrau Achrededig gan ddefnyddio ymchwil, dadansoddi data, cyngor polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir ac adborth ar berfformiad.
- Defnyddio canllawiau, data rheoleiddiol a deallusrwydd artiffisial (AI) i gefnogi dull mwy cadarnhaol, arloesol, rhagweladwy ac ataliol o reoleiddio a chofrestru.
- Hyrwyddo, dylanwadu a chefnogi diwygio rheoleiddio yn unol ag amcanion y Llywodraeth.
- Hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn ein gwaith ac yn y rhai rydym yn eu goruchwylio.

## Nod strategol 3

### Gweithio gydag eraill i wneud y system gyffredinol o reoleiddio gofal iechyd yn fwy cydlynol, cefnogol ac ataliol

Er mwyn i reoleiddio gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol fod yn effeithiol, rhaid iddo adlewyrchu gwaith tîm amlddisgyblaethol a bod yn gydnaws â rheoleiddio'r mannau lle darperir gofal, yn ogystal â rheoleiddio meddyginiaethau a chynhyrchion eraill. Mae angen i ofynion a osodir gan reolyddion a chyflogwyr hefyd gyd-fynd mewn ffyrdd sy'n lleihau beichiau diangen ac yn cynyddu cyfleoedd i gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Drwy’r nod strategol hwn, byddwn yn helpu llunio system reoleiddio fwy cydgysylltiedig sy’n blaenoriaethu atal wrth geisio mynd i’r afael ag achosion arfer gwael a’r niwed canlyniadol. Dylai'r system reoleiddio hefyd feithrin cydweithio, cefnogaeth a dysgu.

- I annog llywodraethau’r DU i ddatblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi cyflawni cynlluniau’r gweithlu wrth gynnal diogelwch a hyder y cyhoedd.
- I daclo unrhyw feysydd o or-reoleiddio neu dan-reoleiddio yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig, gan weithio mewn cydweithrediad ag eraill.
- I gefnogi cydweithio rhwng rheolyddion a chyda rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu amgylcheddau gwaith mwy diogel.
- Gweithio gyda rheolyddion, Cofrestrau Achrededig, unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid eraill i wella diwylliannau gweithle sy'n cefnogi lles, dysgu, gwelliant parhaus ac yn atal niwed i unigolion cofrestredig.

# 1. Cynllun Busnes 2026/27

## Rheoleiddio ac Achredu

1.1. Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio a Chraffu yn cwmpasu pedair o swyddogaethau statudol yr Awdurdod: adrodd i Senedd y DU ar waith y rheolyddion (adolygiad perfformiad); adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol rheolyddion (adran 29); cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch penodiadau rheolyddion i'w Cynghorau a rheoli'r rhaglen Cofrestrau Achrededig o ymarferwyr iechyd a gofal heb eu rheoleiddio. Yn ogystal, mae'n ymdrin â phryderon a godwyd am reolyddion a Chofrestrau Achrededig.

### Adolygiad perfformiad

1.2. Byddwn yn gweithredu'r Safonau newydd ar (gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig). Bydd y Safonau newydd yn cael eu defnyddio i adolygu perfformiad y 10 rheoleiddiwr ac adrodd i'r Senedd ar eu perfformiad.

1.3. Byddwn yn monitro adborth cychwynnol ar weithredu'r Safonau, cyn gwerthusiad effaith mwy ffurfiol yn 2028.

1.4. Byddwn yn archwilio newidiadau posibl i fethodoleg a phrosesau Adolygu Perfformiad, yn dilyn gweithredu'r Safonau newydd a chymhwyso egwyddorion y rheoliad cyffyrddiad cywir diwygiedig.

1.5. Byddwn yn parhau i fonitro ôl-groniadau o achosion addasrwydd i ymarfer yn y rheolyddion ac yn cymryd camau fel y bo'n briodol.

1.6. Byddwn yn cyflwyno prosesau newydd a gwell ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â phryderon perfformiad ynghylch y rheolyddion. Mae hyn yn cynnwys gwella sut rydym yn cynnull rheolyddion ac eraill at ddibenion rhannu gwybodaeth, arfer da, dysgu ac annog gwelliant.

1.7. Byddwn yn dechrau archwilio sut y gall deallusrwydd artiffisial a/neu offer technoleg eraill gynorthwyo i wneud y prosesau adolygu perfformiad yn fwy effeithlon a lleihau'r baich.

1.8. Byddwn yn parhau i fonitro'r NMC yn well ac yn ystyried unrhyw newidiadau neu ddulliau gwahanol y mae angen i ni eu gwneud i'n prosesau yn ehangach. Bydd y monitro gwell yn cynnwys parhau i gadeirio'r Grŵp Goruchwylio Annibynnol i fonitro ymateb yr NMC i'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau annibynnol i waith y rheoleiddiwr hwn.

### Adran 29

1.9. Byddwn yn adolygu penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer y rheolyddion (tua 2,800 o achosion yn flynyddol) i ystyried a yw'r rhain yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd. Os byddwn yn ystyried bod canlyniad yn annigonol, gallwn gyfeirio'r achos at y llys perthnasol. Rydym yn rhagweld y bydd apêl ar tua 25 o achosion yn

2026/27 yn seiliedig ar nifer yr apeliadau yn y gorffennol ac ar hyn o bryd.

1.10. Rydym yn disgwyl arfer ein pŵer i adolygu penderfyniadau archwilwyr achosion ar gyfer Chymdeithion Meddygon (PAs) a Chymdeithion Anesthesia (AAs) a gofyn am adolygiad/diwygiad gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) os oes pryderon ynghylch canlyniadau annigonol ar gyfer diogelu'r cyhoedd.

1.11. Byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer gweithredu diwygio rheoleiddio, gan gynnwys gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i swyddogaethau a phrosesau'r Awdurdod sy'n deillio ohono.

1.12. Byddwn yn cydgrynhoi unrhyw newidiadau a wneir i brosesau Adran 29 yn 2025/26 ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol yn 2026/27 a gynlluniwyd i fesur llwyddiant a gwella effeithlonrwydd.

1.13. Byddwn yn defnyddio ein rôl a'n deallusrwydd i gefnogi gwelliant a dysgu parhaus wrth wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu a rhannu pwyntiau dysgu (gyda Rheolyddion a chydweithwyr Adolygu Perfformiad)
- Trefnu Cynhadledd Adran 29

1.14. Byddwn yn dechrau archwilio sut y gall deallusrwydd artiffisial a/neu offer technoleg eraill gynorthwyo i wneud prosesau Adran 29 yn fwy effeithlon a lleihau beichiau.

## Cofrestrau Achrededig

1.15. Byddwn yn gweithredu'r Safonau newydd ar (gyfer rheolyddion a chofrestrau achrededig). Bydd y Safonau newydd yn cael eu defnyddio i asesu ceisiadau newydd a cheisiadau i adnewyddu, gan gynnwys cynnal monitro yn ystod y flwyddyn ac unrhyw adolygiadau wedi'u targedu o Gofrestrau Achrededig.

1.16. Byddwn yn cynnal Adolygiadau Amodau, Hysbysiadau o Newidiadau, ac Adolygiadau Targedig yn ôl yr angen.

1.17. Byddwn yn monitro adborth cychwynnol ar weithredu'r Safonau, cyn gwerthusiad effaith mwy ffurfiol yn 2028.

1.18. Byddwn yn archwilio newidiadau posibl i'r prosesau asesu a gwneud penderfyniadau Achredu, yn dilyn gweithredu'r Safonau newydd a chymhwyso egwyddorion y rheoliad cyffyrddiad cywir diwygiedig.

1.19. Byddwn yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau i dyfu, aeddfedu, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig a'i halinio â meysydd o angen y gweithlu.

1.20. Byddwn yn cyflwyno prosesau newydd a gwell ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â phryderon perfformiad ynghylch cofrestrau. Mae hyn yn cynnwys gwella sut rydym yn cynnull cofrestrau ac eraill at ddibenion rhannu gwybodaeth, arfer da, dysgu ac annog gwelliant.

1.21. Byddwn yn archwilio sut y gall AI a/neu offer technoleg eraill gynorthwyo gyda phrosesau effeithlon a gwell hygyrchedd at wybodaeth am ymarferwyr ar Gofrestrau Achrededig.

1.22. Byddwn yn ymateb i newidiadau Llywodraeth y DU, deddfwriaethol neu bolisi neu ymholiadau newydd sy'n effeithio ar weithrediadau'r Cofrestrau Achrededig.

1.23. Nid yw'r gwaith Cofrestrau Achrededig yn cael ei ariannu gan ffioedd gan y rheolyddion. Fe'i hariennir yn llawn gan y cofrestrau.

### Penodiadau i gyrff llywodraethu'r rheolyddion

1.24. Rydym yn rhoi cyngor i'r Cyfrin Gyngor ynghylch a oes gennym hyder yn y prosesau a ddefnyddir gan wyth o'r rheolyddion i benodi ac ailbenodi aelodau'r Cyngor. Mae ein gwaith yn berthnasol i'r broses yn unig; nid ydym yn llunio barn ar addasrwydd ymgeiswyr unigol ac nid oes gennym unrhyw lais o ran pwy a benodir.

1.25. Rydym yn disgwyl adolygu tua 15 o brosesau penodi yn 2026/27 yn seiliedig ar gyfrolau adolygiadau'r gorffennol a'r presennol.

### Pryderon

1.26. Rydym yn parhau i dderbyn pryderon am y rheolyddion, sy'n ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth ar gyfer ein gwaith goruchwylio. Yn 2024/25 cawsom 346, a oedd yn cynrychioli nifer tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Nid oes tuedd amlwg yn y nifer a dderbyniwn, ond nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod angen unrhyw newid yn yr adnoddau a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.

## Polisi, cyfathrebu ac ymgysylltu

1.27. Bydd ein gwaith polisi, cyfathrebu ac ymgysylltu yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd rydym yn cyflawni dull mwy ataliol a chydweithredol o reoleiddio, yn ystod blwyddyn gyntaf cyflawni ein Cynllun Strategol 2026-29. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio tystiolaeth a mewnwelediadau i yrru arfer da yn ein gwaith ein hunain, a gwaith eraill. Byddwn hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod gwerth ein gwaith yn cael ei ddeall yn dda a bod ein gweithredoedd yn cael eu llywio gan wrando ar eraill, fel y gallwn wella ein dylanwad a'n heffaith.

1.28. Byddwn yn helpu llunio dyfodol rheoleiddio proffesiynol drwy roi cyngor i Lywodraethau'r DU mewn perthynas â diwygio rheoleiddio, gyda'r nod o wneud y mwyaf o gyfleoedd o'r hyblygrwydd mwy y bydd diwygio yn ei roi i'r rheolyddion. Rydym yn gweld ein rôl yn y dyfodol yn hyn fel un o annog cysondeb, cydweithio ac arfer gorau ar draws y rheolyddion. Byddwn yn datblygu canllawiau i gefnogi cyflwyno ein Safonau newydd, gan roi blaenoriaeth i feysydd a fydd yn helpu hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol, teg a chynhwysol, y gwyddom sy'n bwysig i ddull ataliol.

1.29. Yn 2026/27 rydym yn disgwyl gweithio ar y ddeddfwriaeth ddiwygiedig sy'n ymwneud â'r rheolyddion a rôl yr Awdurdod. Yn seiliedig ar yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer diwygio, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys mewnbwn i'r newidiadau i ddeddfwriaeth yr NMC a'r GMC; a chyflwyno cynllun gwahardd ar gyfer uwch

reolwyr y GIG yn Lloegr, i'w weithredu gan yr HCPC. Bydd gan y newidiadau hyn oblygiadau i sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau goruchwylio, a byddem hefyd yn disgwyl i ddiwygiadau i ddeddfwriaeth yr Awdurdod fod yn symud ymlaen yn 2026/27.

1.30. Byddwn yn parhau i eiriol dros sicrwydd cryfach mewn meysydd o ddarparu iechyd a gofal sy'n peri pryder i ni. Mae hyn yn cynnwys, fel blaenoriaeth, triniaethau cosmetig anfeddygol. Byddwn yn darparu cefnogaeth i Lywodraeth yr Alban ar gyfer cyflwyno ei chynllun trwyddedu newydd, ac (os caiff ei gadarnhau, fel yr ydym yn gobeithio) i Loegr. Byddwn yn parhau i annog Llywodraethau Gogledd Iwerddon a Chymru i ddilyn yr un trywydd. Meysydd eraill lle rydym yn rhagweld y bydd angen ffocws parhaus yn 2026/27 yw cwnsela a seicotherapi, y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach yn Lloegr a rhai rolau gwyddor gofal iechyd fel awdioleg a darlifiedyddion clinigol. Byddwn hefyd yn dechrau gweithio i ddatblygu sut y gallwn wneud defnydd gwell o ddata a deallusrwydd i nodi, asesu a lliniaru risgiau sy'n seiliedig ar ymarfer, gan adeiladu ar ein dull sicrwydd cyffyrddiad cywir presennol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ymchwil lle bo angen.

1.31. Fel corff goruchwylio yn y Deyrnas Unedig, mae gennym ddiddordeb mewn sicrhau bod newidiadau i reoleiddio proffesiynol yn cael symud ymlaen mewn ffordd sy'n caniatáu digon o hyblygrwydd i gefnogi strategaethau gweithlu cenedlaethol, ac yn darparu cysondeb ynghylch y materion sy'n bwysig i ddiogelu'r cyhoedd. Yn 2026/27, byddwn yn defnyddio ein rôl cynnull i helpu hwyluso ymateb cydweithredol i risgiau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, megis sut i reoleiddio ar gyfer defnyddio AI gan weithwyr proffesiynol. Byddwn yn cynnal ein digwyddiadau blynyddol, ar-lein ac yn bersonol, gan gynnwys seminarau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddwn hefyd yn archwilio ffyrdd newydd o ehangu mewnbwn cleifion a'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, cyflogwyr ac eraill i'n gwaith, gan gynnwys ein hasesiadau o'r cyrff rydym yn eu goruchwylio. Bydd hyn yn ein helpu i nodi risgiau rheoleiddiol newydd, yn ogystal â meysydd o arfer da.

## Dirnadaeth a Deallusrwydd

1.32. Byddwn yn parhau i weithio i sefydlu cronfa o adnoddau ynghylch rheoleiddio cyffyrddiad cywir, gan adeiladu ar ein cyhoeddiad o fersiwn newydd o'r ddogfen a deunyddiau ategol yn 2025/26, fel ein bod yn cefnogi deialog ac ymgysylltiad gweithredol parhaus â rhanddeiliaid.

1.33. Byddwn yn trefnu cynhadledd ymchwil yn Chwarter 3, gyda ffocws ar effaith a gwelliant rheoleiddiol o'r mewnwelediadau sy'n deillio o ymchwil.

1.34. Byddwn yn ystyried ceisiadau am gomisiynau yn ôl y gofyn, gan eu dwyn ymlaen lle maent o fewn ein harbenigedd a lle mae gofynion eraill ar ein capasiti yn caniatáu. Wrth wneud hynny byddwn yn gweithredu'r broses fewnol ddiwygiedig ar gyfer gwaith a gomisiynwyd a ddatblygwyd yn 2025/26.

1.35. Byddwn yn datblygu canllawiau ar gyfer rheolyddion, Cofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid eraill ar wireddu rheoleiddio ataliol.

1.36. Byddwn yn dechrau creu canolfan o ganllawiau arfer da ar gyfer rheoleiddio proffesiynol.

## Gwasanaethau Corfforaethol

1.37. Mae'r tîm yn darparu'r gwasanaethau canlynol: cyllid, adnoddau dynol (AD), technoleg gwybodaeth (TG), diogelwch gwybodaeth (DPA/FOI), llywodraethu, rheoli risg, archwilio, cyfleusterau, iechyd a diogelwch, parhad busnes, caffael a gweinyddiaeth swyddfa.

1.38. Mae’r tîm yn gweithio i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydliad annibynnol, effeithiol, yn darparu gwerth am arian. Mae'n cefnogi'r Bwrdd a’r weithrediaeth i gyflawni swyddogaeth a gweithrediad esmwyth y sefydliad.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2026/27

1.39. Yn y flwyddyn nesaf, bydd y tîm yn parhau i gefnogi gweithrediad cyffredinol yr Awdurdod wrth barhau i ymgorffori'r gwelliannau a'r effeithlonrwydd a gyflwynwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

1.40. Bydd AD a Llywodraethu yn parhau i ddarparu cymorth o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl recriwtio ac ymateb i'r holl faterion staffio a materion AD. Byddant yn gweinyddu'r broses i recriwtio ein trydydd Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (erbyn Mai 2026) ac ailbenodiad (neu benodiad) un Aelod Cyfrin Gyngor o'r Bwrdd (erbyn Ionawr 2027).

1.41. Bydd Strategaeth Pobl newydd 2026-29 yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2026 i eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol a bydd y tîm yn cyflawni blwyddyn gyntaf honno yn 2026/27.

1.42. Bydd cyllid yn parhau i ddarparu rhediad effeithiol o'r swyddogaeth gyllid o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl drafodion ariannol, caffael a chyflogres. Byddant yn darparu adroddiadau ariannol cywir a rheolaeth gyllidebol gadarn fel rhan o'u rôl Partneru Busnes Cyllid. Byddant hefyd yn parhau â'u harolygiaeth ragweithiol o'r holl gaffael. Byddant yn gweithredu ac yn mabwysiadu'r pecyn Meddalwedd Cyllid newydd sy'n cael ei archwilio yn ystod y flwyddyn 2025/26, gyda'r nod o symleiddio rhai o'r prosesau gweinyddol.

1.43. Bydd TG yn parhau i ddarparu cefnogaeth desg gymorth effeithiol o ddydd i ddydd, rheoli contractau, rheoli cywiriadau, pwrcasu, seiberddiogelwch a pharhad busnes. Byddant yn cefnogi cyflwyno unrhyw systemau AI a gwasanaethau awtomeiddio a ddewisir pan fydd y Peilot presennol yn dod i ben a phenderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

1.44. Y blaenoriaethau allweddol fydd cyflawni'r amcanion cydraddoldeb newydd sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Strategol ar gyfer 2026-29 a'r camau gweithredu cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu cydraddoldeb.

1.45. Byddwn yn parhau i sganio’r gorwel, gan dynnu sylw at faterion geo-wleidyddol a allai effeithio ar staff a/neu gyflawni prosiectau yr Awdurdod yn ogystal ag ystyried dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ‘Sut i ystyried cydraddoldeb wrth lunio polisïau: Canllaw 10 cam ar gyfer cyrff cyhoeddus yn Lloegr’ a diwygio pecyn cymorth AEA yr Awdurdod.

## 2. Cyllid ac Adnoddau

2.1. Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel corff annibynnol gyda dyletswyddau statudol. Rydym yn atebol i'r Senedd.

2.2. Mae'r Awdurdod yn endid a ddosberthir i lywodraeth ganolog ac yn rhan o ffin gyfrifo'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Felly, mae ein cyfrifon yn cael eu cyfuno i gyfrifon DHSC.

2.3. Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu trwy:

- Ffioedd a gesglir gan y cyrff rheoleiddiol mae'n eu goruchwylio sy'n ariannu costau ei swyddogaethau rheoleiddiol a safonau.
- Incwm yn deillio o achredu cofrestrau gwirfoddol.
- Incwm am gyngor ac ymchwiliadau sydd wedi comisiynu'n benodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac/neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
- Incwm o weithgareddau eraill, er enghraifft, ffioedd o ddarparu cyngor a gwasanaethau cynghori i lywodraethau, cyrff rheoleiddio a sefydliadau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.

2.4. Dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'n ofynnol i ni ymgynghori gyda chyrff rheoleiddio yn eu cynghori o'n gofyniad cyllideb arfaethedig.

### Gwerth am Arian

2.5. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ein nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru. Rydym yn parhau i fonitro gwireddu buddion ar draws ein gwaith ac i ddyrannu adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

2.6. Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2026-29 yn nodi ein cynlluniau i wneud y mwyaf o fanteision ein gwaith, gyda ffocws penodol ar gyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil, cyngor polisi, a rhannu arfer da.

2.7. Mae swyddogaeth y Cofrestrau Achrededig wedi bod yn ariannu ei hun ers 2021/22.

2.8. Fe wnaethom gau Cynllun Pensiwn y GIG i ddechreuwyr newydd o fis Ebrill 2023 a chyflwyno cynllun Cyfraniadau Diffiniedig yn ei le. Mae arbedion o'r newid hwn eisoes yn digwydd.

2.9. Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir ar gyfer ein pwyllgorau Bwrdd a'n gweithdai, sy'n sicrhau arbedion mewn costau teithio a chynhaliaeth i aelodau'r Bwrdd.

2.10. Rydym wedi newid o gael cyfarfod Bwrdd ym mhob Gweinyddiaeth Ddatganoledig bob 18 mis i gael un bob dwy flynedd, ac mae hyn wedi lleihau costau sy'n gysylltiedig â llogi ystafelloedd, teithio a llety. Ategwyd hyn gyda seminar pwrpasol ar gyfer pob gwlad yn y flwyddyn nad ydym yn ymweld â hi, gan ddarparu gwasanaethau a chymorth ychwanegol.

2.11. Rydym wedi lleihau cost ein cynhadledd ymchwil flynyddol yn sylweddol trwy leihau'r hyd o ddau ddiwrnod i un, trwy godi ffi gofrestru resymol ar y rhai sy'n mynychu a thrwy gynnal y digwyddiad mewn lleoliadau llai costus.

2.12. Gwnaethom arbedion sylweddol drwy beidio â defnyddio asiantaethau recriwtio.

2.13. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a wynebir gan nifer o unigolion cofrestredig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cost gyfartalog gwaith rheoleiddio a gosod safonau'r Awdurdod fesul unigolyn cofrestredig yn 2025/26 oedd £2.74. Mae hyn yn cymharu â £2.58 yn 2024/25, £2.59 yn 2023/24, £2.65 yn 2022/23 a £2.72 yn 2021/22, fel y dangosir isod. Ar sail niferoedd yr unigolion cofrestredig ar 31 Mawrth 2025, ein ffi ddisgwyliedig fesul unigolyn cofrestredig yn 2026/27 yw £2.84.




## Rhagdybiaethau

2.14. Mae'r tybiaethau ar gyfer busnes fel arfer yn 2026/27 y gwnaethom adeiladu ein cyllideb arnynt fel a ganlyn:

- Cynnydd cyflog o 3% ar gyfer yr holl staff ac aelodau'r Bwrdd o 1 Ebrill 2026.
- Yn seiliedig ar y costau adennill cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, byddwn yn adennill 25% o gyfanswm gwariant ar gyngor cyfreithiol yn ymwneud ag achosion adran 29.
- Y bydd cyfanswm cost camau cyfreithiol yn debyg i 2024/25 a 2025/26.
- Y bydd nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer oddeutu 2,800, nifer yr adolygiadau achos manwl oddeutu 75 a nifer yr apeliadau oddeutu 25.
- Bydd un Cynghorydd Polisi ychwanegol ar gyfer y gwaith ar ddiwygio (rôl sy'n parhau o 2025/26).
- Bydd un Gweinyddwr Adran 29 ychwanegol ar gyfer y gwaith cyfreithiol (rôl sy'n parhau o 2025/26)
- Na chyflwynir unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n addasu dyletswyddau'r Awdurdod i'r fath raddau fel y bydd yn effeithio ar ein costau, yn ystod y flwyddyn.

- Y bydd y DHSC yn bwrw ymlaen â diwygio rheoleiddiol fel y cynlluniwyd.
- Y bydd y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn talu ei chostau (gan gynnwys unrhyw newidiadau i niferoedd staffio).

2.15. O'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2025/26, mae costau wedi cynyddu mewn perthynas â staffio a chwyddiant ar rai costau nad ydynt yn gostau staff (3%) a llwyth gwaith Adran 29 (gan gynnwys newidiadau sy'n deillio o'r diwygiad). Bydd y gyllideb gyffredinol yn 2026/27 5.7% yn uwch nag yn 2025/26.

2.16. Y sefydliad staffio yn unol â’r gyllideb ar gyfer 2026/27 yw:

| **Swyddi Parhaol** | **Gwir ar 1 Medi 2025** | **2026/27** |
|---|---:|---:|
| Prif Weithredwr | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 |
| Cyfarwyddwyr cynorthwyol | 1 | 1 |
| Penaethiaid swyddogaethau | 7 | [1]8 |
| Rheolwyr | 8 | 7 |
| Arbenigwyr technegol | 3 | 4 |
| Swyddogion a chynghorwyr | 23 | 22 |
| Gweinyddwyr | 4 | 5 |
| **Cyfanswm** | **50** | **51** |

2.17. Mae'r 51 swydd hyn yn 2026/27 yn cynnwys staff Cofrestrau Achrededig ac yn cyfateb i 47.7 o swyddi amser llawn cyfatebol.

2.18. Y cynnydd cyffredinol yn y gyllideb yw 5.7%.

2.19. Mae'r Awdurdod yn cynnal dau fis o gost weithredu fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig, yn unol â'n Polisi Cronfeydd Wrth Gefn. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig dros ben i ariannu gwaith prosiect neu wariant annisgwyl, neu eu dychwelyd i'r rheolyddion fel disgownt ar ffioedd. Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn cadw 50% o gronfeydd wrth gefn cyfyngedig dros ben i ariannu unrhyw wariant ychwanegol annisgwyl, fel apeliadau adran 29, a bydd yn anelu at ddychwelyd 50% i'r rheolyddion oni bai bod y ffigur hwnnw'n cael ei ystyried yn amherthnasol.

2.20. Gan ystyried y sefyllfa ddisgwyliedig o ran cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2025/26, rydym yn cynnig disgowntio'r ffioedd sy'n ofynnol gan y rheolyddion trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn dros ben o £168,000. Felly, bydd y cynnydd mewn ffioedd i'r rheolyddion yn 2026/27 yn 2.6% o'i gymharu â 2025/26.

2.21. Er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i reolyddion ynghylch sut mae ein cyllideb wedi'i rhannu rhwng ein gwahanol swyddogaethau, rydym wedi dadansoddi ein costau staff (ein costau mwyaf o bell ffordd) yn ôl swyddogaeth (heb gynnwys Cofrestrau Achrededig), fel y dangosir yn Ffigur 2.

[1] Swydd rheolwr wedi'i hailraddio i Bennaeth Swyddogaeth

## Ffigur 2




| 2026/27 | Cyfrif staff | Costau staff £'000 | Costau net eraill £'000 | Cyfanswm Costau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu a Pholisi | 12 | 1128 | 283 | **1411** |
| Gwasanaethau Corfforaethol (CS) | 12* | 1,175* | 976 | **2151** |
| Adran 29 (A29) | 9.5** | 777 | 406 | **1183** |
| Adolygiad Perfformiad (PR) | 12.5** | 1026 | 0 | **1026** |
| **Cyfansymiau** | **46*** ** | **4106** | **1665** | **5771** |

*Yn cynnwys Prif Weithredwr a Chynorthwyydd Gweithredol

** Rôl y Cyfarwyddwr wedi'i rhannu rhwng A29 a Chysylltiadau Cyhoeddus

*** Nid yw'r ffigur yn cynnwys staff y Cofrestrau Achrededig

## Cyllidebau dangosol

| **Rheoleiddio a safonau** | **2026/27 £'000** | **2025/26 £'000** |
|---|---:|---:|
| Gwariant gweithredu net (ac eithrio dibrisiant ar gyfer asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ac amorteiddiad cronfa ddata) | 5721 | 5411 |
| | | |
| Gwariant cyfalaf | 50 | 50 |
| **Is-gyfanswm** | **5771** | **5461** |
| Cronfa wrth gefn a ad-dalwyd | 168 | 0 |
| **Cyfanswm gofynion ariannu** | **5603** | **5461** |

### Dadansoddiad o'r gwariant

| | **2026/27 £'000** | **2025/26 £'000** |
|---|---:|---:|
| ***Gwariant*** | | |
| Costau staff | 4106 | 3766 |
| Costau gweinyddol eraill | 1936 | 1834 |
| ***Incwm*** | | |
| Incwm gweithredol | (321) | (189) |
| | | |
| **Gwariant gweithredu net** | **5721** | **5411** |

| **Gwariant cyfalaf** | **2026/27 £'000** | **2025/26 £'000** |
|---|---:|---:|
| Technoleg gwybodaeth | 40 | 40 |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10 | 10 |
| **Gwariant cyfalaf** | **50** | **50** |

## Costau gweinyddol

| | 2026/27 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|
| Penodiadau'r Bwrdd | 0 | 0 |
| Recriwtio | 15 | 15 |
| Hyfforddiant a chynadleddau | 77 | 75 |
| AD arall | 61 | 24 |
| Teithio staff | 10 | 10 |
| Gweinyddol arall | 62 | 41 |
| Deiliadaeth | 334 | 324 |
| Archwiliad | 80 | 70 |
| Cyfreithiol Corfforaethol | 10 | 10 |
| TGCh | 223 | 190 |
| Tâl y Bwrdd | 120 | 116 |
| Treuliau'r Bwrdd | 34 | 33 |
| Cynadleddau polisi | 52 | 45 |
| Cyngor ac ymchwil polisi a gomisiynwyd | 90 | 75 |
| Cyfathrebu | 16 | 20 |
| Ymgysylltiad | 125 | 108 |
| A29 cyfreithiol | 607 | 657 |
| Rheoleiddio ac Achredu (R&A) cyfreithiol cyffredinol | 20 | 21 |
| Dibrisiant | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | **1936** | **1834** |

## Incwm gweithredol

| | 2026/27 £'000 | 2025/26 £'000 |
|---|---|---|
| Adfer costau Adran 29 | 221 | 164 |
| Incwm gweithredu arall | 100 | 25 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredol** | **321** | **189** |

## Cofrestrau Achrededig (cyllideb ddangosol er gwybodaeth yn unig)

| | 2026/27 Cyllideb £'000 | 2025/26 Cyllideb £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Ffioedd | 798 | 771 |
| Cyfanswm | **798** | **771** |
| **Gwariant** | | |
| Costau tâl | 494 | 447 |
| Costau nad ydynt yn dâl | 297 | 284 |
| Cyfanswm | **791** | **731** |
| **Cyfanswm dros ben/(diffyg)** | **7** | **40** |

## 3. Dangosyddion perfformiad allweddol

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol |
|---|---|
| **Penderfyniadau adran 29** | Nifer o achosion a dderbyniwyd [o gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Nifer yr Achosion a ystyriwyd mewn cyfarfod achos neu gyfarfod terfyn amser statudol [o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Apeliadau a gyflwynwyd [o gymharu â'r un cyfnod y llynedd]<br><br>Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol [o gymharu â'r llynedd] |
| **Adolygiadau Perfformiad** | 100% o adolygiadau perfformiad wedi'u cyhoeddi o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod adolygu |
| **Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio** | Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith |
| **Cofrestrau Achrededig – prosesau cyfredol** | Mae 90% o Gofrestrau yn cael asesiad llawn o fewn y cylch y cytunwyd arno (3 neu 4 blynedd yn seiliedig ar asesiad risg)<br><br>90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol<br><br>95% o'r Amodau'n cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad yr oedden nhw i fod<br><br>100% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn pedwar mis i'r dyddiad cychwyn<br><br>Gwneir 90% o benderfyniadau cymhwysedd a budd y cyhoedd a gyflwynir ar ôl cwblhau'r cyfnod cyn-ymgeisio o fewn pedwar mis i dderbyn yr holl ddogfennau<br><br>Gwneir 90% o benderfyniadau ynghylch achrediad llawn o fewn wyth mis i'w derbyn |
| **Cyllid** | Amrywiant incwm / gwariant wedi'i gyllidebu yn llai na 5% |
| **TGCh** | Cau 85% o alwadau i'r ddesg gymorth o fewn un niwrnod<br><br>Diffyg argaeledd y system yn is na 10 awr |
| **Diogelwch gwybodaeth** | Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |

| | |
|---|---|
| **Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR)** | Delio â phob (100%) Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol<br>Delio â phob (100%) cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol |
| **Cwynion** | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br>Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod |
| **Cyfryngau cymdeithasol** | Cyfanswm nifer y dilynwyr ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (o gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)<br>Nifer y dilynwyr newydd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (o gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)<br>Nifer yn ymgysylltu â'n postiadau cyfryngau cymdeithasol (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau). |
| **Defnydd o'r wefan** | Data blwyddyn hyd yma ar ddefnydd gwefan o fis Ebrill 2026 hyd yma gyda'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau<br>• Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws y wefan<br>• Tudalen lanio Gwirio Ymarferwr a thudalennau ymarferwyr penodol<br>• Tudalen hafan Cofrestrau Achrededig a thudalennau Cofrestrau Achrededig cysylltiedig |

Mawrth 2026

professional standards authority

for Health and Social Care

ISBN 978-1-5286-6253-6

E03562288 03/26

cy.professionalstandards.org.uk